

PRIFFYRDD, CYMRU

201- RHIF

DEDDF PRIFFYRDD 1980

**GORCHYMYN CEFNFFORDD
ABERGWAUN I FANGOR (YR A487)
(PONT NEWYDD DROS AFON DYFI,
MACHYNLLETH) (FFYRDD YMYL) 201-**

Gwnaed

201-

Yn dod i rym

201-

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980(1) ("Deddf 1980") yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar ***** 201- a'i enw yw "Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Pont Newydd dros Afon Dyfi, Machynlleth) (Ffyrdd Ymyl) 201-".

2. Yn y Gorchymyn hwn:-

(1) mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol neu'r mynedfeydd i fangreoedd, yn ôl y digwydd;

(2) (i.) ystyr "ffordd ddosbarthiadol" ("classified road"), fel dosbarthiad ar gyfer priffordd newydd yw nad yw'r briffordd yn brif ffordd at ddibenion deddfiadau neu offerynnau sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosberthir yn brif ffyrdd ond ei bod yn ffordd ddosbarthiadol at ddibenion pob deddfiad ac offeryn sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosberthir gan Weinidogion Cymru ac nad yw'n cyfeirio'n benodol at eu dosbarthiad yn brif ffyrdd;

(1) 1980 p.66; diwygiwyd adran 125(1) gan adran 4, Atodlen 2 paragraff 45(8)(a) o Ddeddf Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) 1990 (p.11) Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

HIGHWAYS, WALES

201- No

THE HIGHWAYS ACT 1980

**THE FISHGUARD TO BANGOR TRUNK
ROAD (A487) (NEW DYFI BRIDGE,
MACHYNLLETH) (SIDE ROADS)
ORDER 201-**

Made

201-

Coming into force

201-

The Welsh Ministers in exercise of powers conferred by sections 12, 14, 125 and 268 of the Highways Act 1980(1) ("the 1980 Act") make this Order.

Title, Interpretation and Commencement

1. This Order shall come into force on ***** 201- and its title will be "The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (New Dyfi Bridge, Machynlleth) (Side Roads) Order 201-".

2. In this Order:-

(1) all measurements of distance are measured along the route of the relevant highway or means of access to premises as the case may be;

(2) (i.) "classified road" ("ffordd ddosbarthiadol") as a classification for a new highway, means that the highway is not a principal road for the purposes of enactments or instruments which refer to highways classified as principal roads but is a classified road for the purpose of every enactment and instrument which refers to highways classified by the Welsh Ministers and which does not specifically refer to their classification as principal roads;

(1) 1980 c.66: section 125(1) was amended by the Planning (Consequential Provisions) Act 1990 (c.11), s.4, Sch. 2 para. 45(8)(a). By virtue of S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1 and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(ii) mae “gwella” (“*improvement*”) mewn perthynas â phriffordd yn cynnwys codi, gostwng neu newid y briffordd honno mewn modd arall, a rhaid dehongli “i gael eu gwella” (“*improved*”) yn unol â hynny;

(iii.) ystyr “priffordd newydd” (“*new highway*”) yw priffordd yr awdurdodir ei hadeiladu gan y Gorchymyn hwn, a rhaid dehongli “priffordd newydd” (“*new highways*”) yn unol â hynny;

(iv.) ystyr “prif ffordd” (“*principal road*”) fel dosbarthiad ar gyfer priffordd newydd yw bod y briffordd yn brif ffordd at ddibenion deddfiadau neu offerynnau sy’n cyfeirio at briffordd a ddosberthir yn brif ffyrdd a’i bod hefyd yn ffordd ddosbarthiadol at ddibenion pob deddfiad ac offeryn arall sy’n cyfeirio at briffordd a ddosberthir gan Weinidogion Cymru.

(v.) ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw’r planiau safle sy’n dwyn y rhifau 1 i 2 a geir yn y ffolio planiau sy’n dwyn y rhif HA/14/1 WG14 ac a farciwyd “Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Pont Newydd dros Afon Dyfi, Machynlleth) (Ffyrdd Ymyl) 201-” a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac a adneuwyd (cyf: qA1254141) yn Llywodraeth Cymru, yr Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;

(vi.) ystyr “y plan safle” (“*the site plan*”) yw un o’r planiau safle sy’n dwyn y rhif 1 i 2 a geir yn y ffolio planiau sy’n dwyn y rhif HA/14/1 WG14 ac y cyfeirir ato fel “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) ym mharagraff (v.) uchod o’r erthygl hon;

(vii.) ystyr “y gefnffordd newydd” (“*the new trunk road*”) yw’r gefnffordd sydd i’w hadeiladu yn unol â “Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (Pont Newydd dros Afon Dyfi a Thynnu Statws Cefnffordd) 201-”;

(viii.) ystyr “ffordd ddiddosbarth” (“*unclassified road*”) yw priffordd nad yw’n

(ii) “improvement” (“*gwella*”) in relation to a highway includes raising, lowering or otherwise altering that highway and “improved” shall be construed accordingly;

(iii.) “new highway” (“*priffordd newydd*”) means a highway authorised by this Order to be constructed, and “new highways” shall be construed accordingly;

(iv.) “principal road” (“*prif ffordd*”) as a classification for a new highway, means that the highway is a principal road for the purposes of enactments or instruments which refer to highways classified as principal roads and is also classified for the purpose of every other enactment and instrument which refers to highways classified by the Welsh Ministers;

(v.) “the deposited plan” (“*y plan a adneuwyd*”) means the site plans numbered 1 to 2 contained in the plan folio numbered HA/14/1 WG14 and marked “The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (New Dyfi Bridge, Machynlleth) (Side Roads) Order 201-” signed on behalf of the Welsh Ministers and deposited (ref:qA1254141) at the Welsh Government, Information and Records Management Unit, Cathays Park, Cardiff;

(vi.) “the site plan” (“*y plan safle*”) means one of the site plans numbered 1 to 2 contained in the plan folio numbered HA/14/1 WG14 and referred to as “the deposited plan” at paragraph (iv.) above of this Article;

(vii.) “the new trunk road” (“*y gefnffordd newydd*”) means the trunk road to be constructed in pursuance of the “The Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (New Dyfi Bridge and De-Trunking, Machynlleth) Order 201-”;

(viii.) “unclassified road” (“*ffordd ddiddosbarth*”) means a highway that is not a

briff ffordd nac yn ffordd ddosbarthiadol nac yn llwybr troed nac yn llwybr beiciau nac yn llwybr ceffylau nac yn gilffordd gyfyngedig ac nad oes dosbarthiad ffurfiol iddi;

Y Gwaith Awdurdodedig

3. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu hawdurdodi mewn perthynas â Chefnffordd yr A487 ger Pont ar Ddyfi rhwng Machynlleth a Dolgellau yn Siroedd Powys a Gwynedd:

- a. i wneud gwaith i wella'r priffyrdd;
- b. i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- c. i adeiladu priffyrdd newydd;
- d. i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd;
- e. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd;
- f. i adeiladu darnau o briffyrdd dros dro; ac
- g. i gau darnau o briffyrdd dros dro;

4. (1) Mae'r gwaith a awdurdodir gan erthygl 3 wedi ei dangos yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn sy'n dwyn y rhifau 1 a 2 ac wedi ei dangos ar y planiau safle sy'n dwyn y rhifau 1 a 2 ac sydd wedi ei gynnwys yn y plan a adneuwyd sy'n dod gyda'r Gorchymyn fel a ganlyn:

- a. enwir y priffyrdd sydd i gael eu gwella yn yr Atodlenni a'u dangos â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd;
- b. disgrifir y darnau a rhannau o briffyrdd sydd i'w cau yn yr Atodlenni (bras amcan yn unig yw pob pellter a nodir) a'u dangos â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd;
- c. dangosir priffyrdd newydd sydd i gael eu hadeiladu drwy ddefnyddio llythrennau

principal road or a classified road or a footpath or a cycle track or a bridleway or a restricted byway and has no formal classification;

The Authorised Works

3. The Welsh Ministers are authorised, in relation to the A487 Trunk Road near Pont-ar-Ddyfi, Machynlleth between Machynlleth and Dolgellau in the Counties of Powys and Gwynedd to:

- a. carry out the improvement of highways;
- b. stop up highways or areas of highways;
- c. construct new highways;
- d. stop up private means of access to premises,
- e. provide new means of access to premises,
- f. construct temporarily lengths of highway, and
- g. close lengths of highway temporarily.

4. (1) The works authorised by Article 3 are indicated in the Schedules to this Order which are numbered 1 and 2 and are shown on the site plans numbered 1 and 2 that are included in the deposited plan that accompanies this Order in the following manner;

- a. highways to be improved are named in the Schedules and are shown by cross hatching on the deposited plan;
- b. lengths and areas of highways to be stopped up are described in the Schedules (all distances stated being approximate only) and are shown by zebra hatching on the deposited plan;
- c. new highways to be constructed are indicated by the use of reference letters in the

cyfeirnod yn yr Atodlenni, a roddir i'r priffyrdd newydd hynny ar y plan a adneuwyd. Os oes priffordd newydd i gael ei hadeiladu mewn cysylltiad â chau darn neu ran o briffordd a ddisgrifir mewn Atodlen, gosodir ei llythyren gyfeirnod gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw neu'r rhan honno a, os yw priffordd newydd i fod yn llwybr troed neu'n llwybr beiciau, gwelir y geiriau "llwybr troed" neu "llwybr beiciau" (yn ôl y digwydd) mewn cromfachau o dan y llythyren gyfeirnod. Dangosir llwybrau priffyrdd newydd sydd i gael ei hadeiladu â dotwaith a dangosir llinell ganol pob priffordd newydd â llinell ddu ddi-dor ar y plan a adneuwyd;

- d. disgrifir darnau o fynedfeydd preifat sydd i'w cau yn yr Atodlenni (bras amcan yn unig yw pob pellter a nodir), a rhoddir y rhifau cyfeirnod a ddangosir ar y plan a adneuwyd iddynt a'u dangos â bandiau du solet;
- e. nodir mynedfeydd preifat newydd sydd i gael eu darparu drwy ddefnyddio rhifau a llythrennau cyfeirnod yn yr Atodlenni a roddir i'r mynedfeydd newydd hynny ar y plan a adneuwyd. Os oes mynedfa breifat newydd i gael eu darparu mewn cysylltiad â chau darn o fynedfa breifat a ddisgrifir yn yr Atodlen honno, gosodir ei rhif a'i llythyren gyfeirnod gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw. Dangosir llwybrau mynedfeydd newydd sydd i'w darparu â llinellau lletraws ar y plan a adneuwyd.

Schedules which are given to those new highways on the deposited plan. Where a new highway is to be constructed in connection with the stopping up of a length or an area of highway described in a Schedule, its reference letter is placed opposite to the description of that length or area and, where a new highway is to be a footpath or cycleway, the word "footpath" or "cycleway" (as the case may be) appears in brackets beneath the reference letter. Routes of new highways to be constructed are shown by stipple and the centre line of each new highway is shown by an unbroken black line on the deposited plan;

- d. lengths of private means of access to be stopped up are described in the Schedules (all distances stated being approximate only), and are given the reference numbers shown on the deposited plan and are shown by solid black bands;
- e. new private means of access to be provided are indicated by the use of reference numbers and letters in the Schedules which are given to those new means of access on the deposited plan. Where a new private means of access is to be provided in connection with the stopping up of a length of private means of access described in that Schedule, its reference number and letter is placed opposite to the description of that length. Routes of new means of access to be provided are shown by diagonal hatching on the deposited plan.

- f. dangosir darnau o briffordd sydd i gael eu darparu dros dro â llinellau rhesog onglog tenau a dangosir llinell ganol y priffyrdd dros dro â llinell ddu ddi-dor ar y plan a adnewwyd ac fe'u dangosir drwy ddefnyddio rhifau a llythrennau cyfeirnod yn yr Atodlenni; ac
- g. disgrifir y darnau o briffordd sydd i'w cau dros dro (bras amcan yn unig yw pob pellter) ac fe'u dangosir â llinellau rhesog onglog trwm ar y plan a adnewwyd.

(2) Mae'r plan a adnewwyd yn marcio safle'r gefnffordd a llwybr y gefnffordd newydd mewn perthynas â'r gwaith awdurdodedig a ddangosir ar y plan a adnewwyd.

(3) Pan fo'r rhan o briffordd sydd i'w chau yn cyd-fynd â llwybr gwaith awdurdodedig sy'n briffordd newydd neu'n fynedfa newydd ni ddangosir y rhan honno ar y plan a adnewwyd â llinellau sebra.

Cau Priffyrdd a Mynedfeydd Preifat

5. Datgenir drwy hyn fod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni:-

- (1) o ran pob darn o briffordd y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi ei gau, naill ai fod llwybr rhesymol gyfleus arall ar gael neu y bydd yn cael ei ddarparu cyn i'r darn hwnnw o briffordd gael ei gau; a
- (2) o ran pob mynedfa breifat i fangre y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi ei chau, fod mynedfa resymol gyfleus arall i'r fangre ar gael neu y bydd yn cael ei darparu cyn i'r fynedfa breifat honno gael ei chau neu nad oes angen rhesymol am fynedfa i'r fangre berthnasol.

- f. lengths of highway to be provided temporarily are shown by thin chevron hatching and the centre line of the temporary highways is shown by an unbroken black line on the deposited plan and are indicated by the use of reference numbers and letters in the Schedules; and
- g. lengths of highway to be closed temporarily are described (all distances being approximate only) and are shown by bold chevron hatching on the deposited plan.

(2) The deposited plan marks the position of the trunk road and the route of the new trunk road in relation to the authorised works shown on the deposited plan.

(3) Where the area of a highway to be stopped up coincides with the route of an authorised work consisting of a new highway or a new means of access that area is not shown on the deposited plan by zebra hatching.

Stopping Up of Highways and Private Means of Access

5. It is hereby declared that the Welsh Ministers are satisfied:-

- (1) as respects each length of highway the stopping up of which is authorised by this Order, that either another reasonably convenient route is available or will be provided before that length of highway is stopped up, and
- (2) as respects each private means of access to premises the stopping up of which is authorised by this Order, that other reasonably convenient means of access to premises is available or will be provided before that private means of access is stopped up or that no access to the relevant premises is reasonably required.

Trosglwyddo Priffyrdd Newydd (i awdurdod priffyrdd)

6. Mae pob priffordd newydd i gael ei throsglwyddo i Gyngor Powys neu Gyngor Gwynedd fel y'i nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn, o'r dyddiad y bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu pob Cyngor ei bod wedi ei chwblhau a'i bod ar agor i draffig trwodd.

7. Yn union ar ôl trosglwyddo priffordd newydd, caiff y briffordd honno ei dosbarthu'n briodol. Nodir dosbarth pob priffordd newydd yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

8. Pan fo darpariaeth yn cael ei gwneud yn y Gorchymyn hwn:-

- a. i drosglwyddo priffordd newydd i Gyngor Sir Powys neu i Gyngor Gwynedd; neu
- b. i alluogi Gweinidogion Cymru i newid priffordd a freiniwyd yng Nghyngor Sir Powys neu yng Nghyngor Gwynedd;

trosglwyddir i Gyngor Sir Powys neu i Gyngor Sir Gwynedd ar y dyddiad y trosglwyddir y briffordd newydd neu adeg cwblhau'r gwaith neu'r newid, neu ar ddyddiad caffael y tir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu â newid priffordd, os bydd hynny'n ddiweddarach, unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau (ac eithrio benthyciadau neu ffioedd am fenthyciadau) a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru neu yr aed iddynt ganddynt mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu â newid priffordd, yn ôl y digwydd.

Ymgymrwyr Statudol a Darparwyr

9. Pan, yn union cyn cau darn o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, fydd unrhyw offer ymgymrwyr statudol o dan y briffordd honno, ynddi, drosti, ar ei thraws, neu ar ei hyd, yna, yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Priffyrdd 1980, bydd yr ymgymrwyr hynny yn

Transfer of New Highways (to highway authority)

6. Each new highway is to be transferred to Powys Council or Gwynedd Council as indicated in the Schedules to this Order, as from the date when the Welsh Ministers notify each Council that it has been completed and is open for through traffic.

7. Immediately after the transfer of a new highway, that highway will be classified accordingly. The classification of each new highway is set out in the Schedule to this Order.

8. Where provision is made in this Order:-

- a. for the transfer of a new highway to Powys County Council or Gwynedd Council; or
- b. for enabling the Welsh Ministers to alter a highway vested in Powys County Council or Gwynedd Council;

there will transferred to Powys County Council or Gwynedd Council on the date of transfer of the new highway or on completion of the works or alteration, or on the date of acquisition of the land by the Welsh Ministers in connection with the new highway or the alteration of a highway, if later, any property, rights or liabilities (other than loans or loan charges) vested in or incurred by the Welsh Ministers in connection with the new highway or the alteration of a highway, as the case may be.

Statutory Undertakers and Providers

9. Where immediately before a length of highway is stopped up in pursuance of this Order there is under, in, over, across or along that highway any apparatus of statutory undertakers then, subject to section 21 of the Highways Act 1980, those undertakers will

parhau i fod â'r un hawliau o ran yr offer hwnnw ar ôl cau'r darn o briffordd ag a oedd ganddynt yn union cyn hynny.

continue to have the same rights as respects that apparatus after the stopping up takes place as they had immediately prior thereto.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Signed on behalf of the Welsh Ministers

Dyddiad 201-

Date 201-

NINA LEY
Pennaeth yr Uned Fusnes
Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

NINA LEY
Head of Business Unit
Network Management
Welsh Government

DEDDF PRIFFYRDD 1980

THE HIGHWAYS ACT 1980

**GORCHYMYN CEFNFFORDD
ABERGWAUN I FANGOR (YR A487)
(PONT NEWYDD DROS AFON DYFI A
THYNNU STATWS CEFNFFORDD,
MACHYNLLETH) 201-**

**THE FISHGUARD TO BANGOR TRUNK
ROAD (A487) (NEW DYFI BRIDGE AND
DE-TRUNKING, MACHYNLLETH)
ORDER 201-**

A

AND

**GORCHYMYN CEFNFFORDD
ABERGWAUN I FANGOR (YR A487)
(PONT NEWYDD DROS AFON DYFI,
MACHYNLLETH) (FFYRDD YMYL) 201-**

**THE FISHGUARD TO BANGOR TRUNK
ROAD (A487) (NEW DYFI BRIDGE,
MACHYNLLETH) (SIDE ROADS)
ORDER 201-**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud y Gorchmynion a ganlyn:-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose to make the following Orders:-

1. Gorchymyn o dan adrannau 10 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn darparu:

1. an Order under sections 10 and 12 of the Highways Act 1980 providing that:

a. y bydd llwybr tua 988 o fetrau o hyd sy'n dechrau wrth bwynt ar gefnffordd bresennol yr A487 sydd 41 o fetrau i'r gogledd o linell ganol Pont Rheilffordd Machynlleth, ac yna'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd am 198 o fetrau ac yna i gyfeiriad y

a. a route approximately 988 metres in length commencing at a point on the existing A487 trunk road 41 metres north of the centreline of Machynlleth Railway Bridge, and then extending in a northerly direction for 198 metres and then in a north easterly

gogledd-ddwyrain am 790 o fetrau gan groesi'r ffin Sirol i ymuno â chefnffordd bresennol yr A487 wrth bwynt 254 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r B4404 i'r de o fferm Y Ffridd, Machynlleth yn Siroedd Powys a Gwynedd, a

b. y bydd llwybr tua 22.5 o fetrau o hyd (i gysylltu â Ffordd Fynediad Parc Eco Dyfi) sy'n dechrau wrth bwynt ar y gefnffordd newydd 22.5 o fetrau i'r gorllewin o ymyl ddwyreiniol cefnffordd bresennol yr A487 wrth bwynt 127 o fetrau i'r gogledd o linell ganol Pont Rheilffordd Machynlleth ac yna'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain am 22.5 o fetrau i ymuno â'i chyffordd â Ffordd Fynediad bresennol Parc Eco Dyfi, yn Sir Powys

yn cael eu hadeiladu ger Pont ar Ddyfi rhwng Machynlleth a Dolgellau ac y byddant yn dod yn gefnffyrdd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn i rym;

ac

c. y bydd y darn o gefnffordd presennol yr A487 sy'n dechrau wrth bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Ffordd Fynediad Parc Eco Dyfi ac yna'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd am 321 o fetrau hyd at bwynt ar ben ddeheuol Pont ar Ddyfi, yn Sir Powys, i ddod yn ffordd ddiddosbarth, a

d. y bydd y darn o'r gefnffordd bresennol sy'n dechrau wrth bwynt ar gefnffordd bresennol yr A487 wrth ei chyffordd â ffordd ddosbarthiadol yr A493, i'r gogledd o Bontarddyfi ac yna'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin hyd at bwynt 100 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â'r ffordd fynediad breifat sy'n arwain at fferm Y Ffridd, yn Sir Gwynedd, i ddod yn ffordd ddosbarthiadol

yn peidio â bod yn gefnffyrdd o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi hysbysiad i Gyngor Sir Gwynedd neu i Gyngor Sir Powys (a fydd yr awdurdodau priffyrdd ar gyfer y darnau hynny).

2. Gorchymyn o dan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980, a fydd yn eu hawdurdodi:-

- a. i wneud gwaith i wella'r priffyrdd;
- b. i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
- c. i adeiladu priffyrdd newydd;
- d. i gau darnau o briffyrdd dros dro;
- e. i adeiladu darnau o briffyrdd dros dro;
- f. i gau mynedfeydd preifat i

direction for 790 metres crossing over the County border to join the existing A487 trunk road at a point 254 metres south of its junction with the B4404 south of Y Fridd Farm, Machynlleth, in the Counties of Powys and Gwynedd, and

b. a route approximately 22.5 metres in length (to connect to the Dyfi Eco Park Access Road) commencing at a point on the new trunk road 22.5 metres west of the eastern edge of the existing A487 trunk road at a point 127 metres north of the centreline of Machynlleth Railway Bridge and then extending in an easterly direction for 22.5 metres to its junction with the existing Dyfi Eco Park Access Road, in the County of Powys

shall be constructed near Pont y Ddyfi between Machynlleth and Dolgellau and shall become trunk roads as from the date when the Order comes into force;

and:

c. the length of the existing A487 trunk road commencing at a point 150 metres north of its junction with the Dyfi Eco Park Access Road and then extending in a northerly direction for approximately 321 metres to a point at the southern end of Pont ar Ddyfi, in the County of Powys, to become an unclassified road, and

d. the length of existing trunk road commencing at a point on the existing A487 trunk road at its junction with the A493 classified road, north of Pont ar Ddyfi and then extending in a westerly direction to a point 100 metres west of its junction with the private means of access road leading to Y Fridd Farm, in the County of Gwynedd, to become a classified road

shall cease to be trunk roads as from the date on which notice is given by the Welsh Ministers to Gwynedd Council or Powys Council (who will become the highway authorities for those lengths).

2. an Order under sections 12, 14, 125 and 268 of the Highways Act 1980 which will authorise them to:-

- a. carry out the improvement of highways;
- b. stop up highways or areas of highways;
- c. construct new highways;
- d. close lengths of highways temporarily;
- e. construct lengths of highways

- g. fangreoedd, ac
i ddarparu mynedfeydd newydd i
fangreoedd.

i gyd ar lwybr y cefnffyrdd newydd a grybwyllir uchod, neu yng nghyffiniau'r cefnffyrdd a grybwyllir; ac

sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo'r priffyrdd newydd i Gyngor Powys neu i Gyngor Gwynedd o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Cyngorau hynny eu bod wedi eu cwblhau a'u bod ar agor ar gyfer traffig trwodd.

GELLIR edrych ar gopiâu o'r Gorchmynion drafft, y planiau perthnasol, y Datganiad Amgylcheddol (DA), y Datganiad i Hysbysu Asesiad Priodol (DHAP), y Crynodeb Annhechnegol o'r DA, Hysbysiadau Penderfynu'r DA a'r Datganiad Esboniadol yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol o 6 Medi 2017 tan 18 Hydref 2017, yn y mannau a ganlyn:

- Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;
- Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Spa Road East, Llandrindod, Powys, LD1 5LG;
- Cyngor Gwynedd, Swyddfa Ardal Meirionnydd, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB;
- Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH
- Y Plas, Machynlleth, Powys, SY20 8ER
- Canolfan Hamdden Bro Dysynni, Stryd Fawr, Tywyn LL36 9AE

CAIFF UNRHYW BERSON wrthwynebu gwneud y naill neu'r llall o'r Gorchmynion drwy hysbysu Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, heb fod yn hwyrach na 18 Hydref 2017 gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1244119 a rhoi'r sail dros wrthwynebu.

Noder: Os byddwch yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, bydd y tîm prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac efallai y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses hon caniateir inni drosglwyddo iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi tynnu'n sylw atynt.

- f. temporarily;
stop up private means of access to
premises, and
g. to provide new means of access to
premises.

all on, or in the vicinity of, the route of the above-mentioned new trunk roads, aforesaid; and

providing for the transfer of the new highways to Powys Council or Gwynedd Council as from the date the Welsh Ministers notify those Councils that they have been completed and are open for through traffic.

COPIES of the draft Orders, relevant plans, Environmental Statement (ES), Statement to Inform an Appropriate Assessment (SIAA), Non-Technical Summary of the ES, ES Determination Notices and the Explanatory Statement may be inspected free of charge at all reasonable hours from 6 September 2017 until 18 October 2017, at the following venues:

- Welsh Government Offices, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ;
- Powys County Council, County Hall, Spa Road East, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG.
- Gwynedd Council, Meirionnydd Area Office, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB
- Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon, LL55 1SH
- Y Plas, Machynlleth, Powys, SY20 8ER
- Bro Dysynni Leisure Centre, High Street, Tywyn LL36 9AE

ANY PERSON may not later than 18 October 2017 object to the making of either of the Orders by notice to the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference qA1244119 and stating the grounds of objection.

Please note: Should you wish to object, support or make representations, your correspondence will be considered by the project team and we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of this process we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. Where a Trunk

Pan fydd Cynllun Cefnffordd yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), caiff pob gohebiaeth ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn Llyfrgell yr YC a bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Llinell drafft a'r Hysbysiad drafft yn www.cymru.gov.uk (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-Ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth ddrafft', 'Offerynnau Statudol Lleol Drafft', 'Gorchmynion Llinell Deddf Priffyrdd').

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad Ffyrdd Ymyl drafft yn www.cymru.gov.uk (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Anstatudol Drafft', 'Gorchmynion Ffyrdd Ymyl a Phrynu Gorfodol yn unol â'r Ddeddf Priffyrdd').

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Road Scheme becomes the subject of a Public Inquiry (PI), all correspondence is copied to the Inspector of the Inquiry and is kept in the PI Library and is publicly available.

A copy of the draft Line Order and Notice can be viewed at www.wales.gov.uk (select 'Legislation', 'Subordinate legislation', 'Draft Legislation', 'Draft Local Statutory Instruments', 'Highways Act Line Orders').

A copy of the draft Side Roads Order and Notice can be viewed at www.wales.gov.uk (select 'Legislation', 'Subordinate legislation', 'Draft Legislation', 'Draft Non-Statutory Instruments', 'Highways Act Side Roads and Compulsory Purchase Orders').

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government